

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483  
(LLANELWEDD, POWYS) (FFORDD  
GYFYNGEDIG) 2022**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 82(2), 83(1) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, sy'n dod i rym ar 15 Ebrill 2022.

Effaith y Gorchymyn yw cyfarwyddo bod y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 75 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt Cylchfan Llanelwedd yr A470/A483 hyd at bwynt 305 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r gylchfan honno yn ffordd gyfyngedig at ddibenion adran 81 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ac felly'n ddarostyngedig i derfyn cyflymder 30 mya.

Mae'r Gorchymyn hefyd yn dirymu Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Llanelwedd, Powys) (Dileu Cyfyngiad a Therfyn Cyflymder 40 mya) 2005.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 14 Ebrill 2022 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn, ynghyd â Phlan, yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau agor arferol yn Llyfrgell Llanfair-ym-Muallt, Antur Gwy, Ffordd y Parc, Llanfair-ym-Muallt, LD2 3BA. Gellir hefyd gael copiau yn rhad ac am ddim oddi wrth Lywodraeth Cymru naill ai drwy ysgrifennu at: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ neu drwy anfon e-bost i [Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru](mailto:Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru) gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1457234.

Gellir gweld copi o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn, a Phlan ar wefan Llywodraeth Cymru ar <https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd> a/neu eu cael mewn print bras yn rhad ac am ddim drwy ysgrifennu at: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1457234.

**J SADDLER**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

**THE A483 TRUNK ROAD (LLANELWEDD,  
POWYS) (RESTRICTED ROAD) ORDER 2022**

The Welsh Ministers have made an Order in exercise of their powers under sections 82(2), 83(1), and 124(1)(d) of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984, which comes into force on 15 April 2022.

The effect of the Order is to direct that the length of the trunk road that extends from a point 75 metres north-east of the centre-point of the A470/A483 Llanelwedd Roundabout to a point 305 metres north-east of that said roundabout is a restricted road for the purposes of section 81 of the Road Traffic Regulation Act 1984 and therefore subject to a 30mph speed limit.

The Order also revokes the A483 Trunk Road (Llanelwedd, Powys) (De-restriction & 40 mph Speed Limit) Order 2005.

During a period of 6 weeks from 14 April 2022 a copy of the Order, together with a Plan, may be inspected, free of charge, during normal opening hours at Builth Wells Library, Antur Gwy, Park Road, Builth Wells, LD2 3BA. Copies may also be obtained free of charge from the Welsh Government either by writing to Welsh Government, Orders Branch, Transport, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ or by emailing [Transportordersbranch@gov.wales](mailto:Transportordersbranch@gov.wales) quoting reference number qA1457234.

**A copy of this Notice, the Order and Plan can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders> and/or obtained in larger print free of charge by writing to Welsh Government, Orders Branch, Transport, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ quoting reference number qA1457234.**

**J SADDLER**  
Transport  
Welsh Government